

# Amlinelliad o'r Cymhwyster TGAU Bwyd a Maeth – Fersiwn Ymgynghori



Gwnaed i Gymru.  
Yn barod i'r byd.

## Cyflwyniad

Yn y ddogfen hon mae trosolwg o'r cymhwyster CBAC TGAU Bwyd a Maeth arfaethedig.

Mae'n seiliedig ar Feini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru (mae adrannau allweddol wedi'u cynnwys yn Atodiad 1). **Rhaid** i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

Bydd yr amlinelliad hwn o'r cymhwyster yn gweithio fel canllaw ar gyfer datblygu'r Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (DAE).

## Trosolwg o'r Cymhwyster

Bydd y cymhwyster TGAU Bwyd a Maeth yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy wneud hyn:

- Cefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, gan roi cyfle i'r dysgwyr:
  - ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar iechyd corfforol a llesiant sy'n hybu cyrff iach a meddyliau iach. Mae hyn yn cynnwys ymddygiadau sy'n hybu iechyd fel dilyn deiet cytbwys
  - datblygu'r hyder, y cymhelliant, y gallu corfforol, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a fydd yn gallu eu helpu i ddilyn ffordd o fyw iach ac actif sy'n hybu iechyd corfforol da a llesiant drwy astudio maeth ac iechyd da
  - galluogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau meddwl yn greadigol sydd eu hangen i allu ystyried sut maen nhw'n gwneud penderfyniadau yn nhermau goblygiadau posibl wrth baratoi bwyd, gan gynnwys risgiau, iddyn nhw eu hunain ac i bobl eraill
  - ymgysylltu'n feirniadol â'r dylanwadau cymdeithasol hyn yn eu diwylliant eu hunain sy'n dylanwadu ar y deiet a'r dewisiadau iechyd
- Cefnogi'r egwyddorion cynnydd drwy annog dysgwyr i:
  - atgyfnerthu'r dysgu mewn amrywiaeth eang o gysyniadau yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig gan ystyried amrediad eang o destunau ac agweddau ar fwyd a maeth
  - datblygu eu hannibyniaeth a'u gweithrediaeth mewn materion yn ymwneud â maeth ac iechyd da: gan arwain at gyfrifoldeb cynyddol am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain
  - rhoi'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu am fwyd a maeth mewn cyd-destun ymarferol, gan ddatblygu gwybodaeth am y cysyniadau
  - datblygu sgiliau ymarferol fel paratoi bwyd a choginio sydd hefyd yn cefnogi dysgwyr o ran eu hiechyd a'u llesiant

Mae'r cymhwyster TGAU Bwyd a Maeth yn cael ei lunio ar sail ystyriaethau pwnc-benodol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bwyd a Maeth<sup>1</sup>. Bydd y cymhwyster:

- darparu cyfleoedd addas i ddysgwyr ddod i ddeall y daith o'r 'fferm i'r fforc', gan archwilio dylanwadau economaidd, moesegol ac amgylcheddau argaeledd bwyd ac ystyried materion cynaliadwyedd, cynhyrchu a phrosesu bwyd
- darparu cyfleoedd i ddysgwyr wneud dewisiadau bwyd iach a gwybodus iddyn nhw eu hunain ac i eraill, gwneud cysylltiadau rhwng deiet, maeth, iechyd a llesiant,

<sup>1</sup> <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/iechyd-a-lles/cynllunio-eich-cwricwlwm/>

archwilio dylanwadau deiet a dewisiadau iechyd, esbonio swyddogaeth a manteision maethol bwyd a diodydd yn y corff dynol

- darparu cyfleoedd i ddysgwyr feithrin dealltwriaeth o briodweddau swyddogaethol bwyd yn y corff ac o gynhwysion bwyd a ddefnyddir mewn rysâit
- darparu sgiliau i ddysgwyr allu paratoi, prosesu, storio, coginio a gweini bwyd yn effeithiol ac yn ddiogel. Byddant yn gallu addasu ryseitiau presennol a datblygu eu seigiau eu hunain, dadansoddi a gwerthuso amrediad o fwydydd a seigiau maen nhw a phobl eraill wedi'u gwneud, ac archwilio'r rhinweddau synhwyrdd sy'n perthyn i'r cynhwysion mewn rysait
- rhoi cyfleoedd i Ddysgwyr werthfawrogi sut mae bwyd yn ein cysylltu â'r byd o'n cwmpas, archwilio cyfraniadau a bwydydd cymunedau ac unigolion Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, archwilio amrywiaeth o gynhwysion, a dulliau a thechnegau coginio, o fwydydd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, a dylanwadau diwylliannol-gymdeithasol ar argaeledd bwyd

## Strwythur Arfaethedig y Cymhwyster

### **Uned 1: Arholiad digidol yn unig**

Arholiad digidol  
40% o'r cymhwyster

### **Uned 2: Ymchwiliad bwyd**

Asesiad di-arholiad  
20% o'r cymhwyster

**Wedi'i marcio gan y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC**

### **Uned 3: Bwyd a Maeth ar Waith**

Asesiad di-arholiad  
40% o'r cymhwyster  
Wedi'i marcio gan y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC

Cymhwyster llinol fydd hwn.

Nid yw trefn gyflwyno'r unedau yn awgrymu unrhyw hierarchaeth. Felly, nid oes yma awgrym o drefn addysgu benodol.


# Gwybodaeth am Unedau

## Uned 1 – Arholiad Digidol yn Unig

Pwrpas yr uned hon yw:

- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o fwyd a maeth ac o baratoi a choginio bwyd

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniadau a chynnwys posibl canlynol.




Asesir Uned 1 drwy arholiad a fydd ar gael yn y gyfres haf, ac ar gael am y tro cyntaf yn 2027. Bydd yr arholiad yn cynnwys cymysgedd o fathau o gwestiynau a fydd yn targedu AA1, AA2 ac AA3. Bydd yr un pwysoli am AA1 ac AA2 sef yr uchaf, wedi'i ddilyn gan AA3. Mae'n debygol y bydd yr arholiad tuag 1 awr a 30 munud o hyd. Ni fydd opsiynau ac ni fydd haenau. Arholiad digidol yn unig fydd hwn.

## Uned 2 – Ymchwiliad Bwyd

Pwrpas yr uned hon yw:

- Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion gweithio, swyddogaeth a phriodoleddau cemegol cynhwysion mewn rysáit

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniadau a chynnwys posibl canlynol:



Bydd yr uned hon ar ffurf asesiad di-arholiad. Bydd y tasgau'n cael eu rhyddhau ym mis Medi yn ail flwyddyn yr astudio i'w cyflwyno yn ystod y gyfres haf; bydd tasgau ar gael am y tro cyntaf ym mis Medi 2026 i'w cyflwyno yn haf 2027. Bydd yr uned hon yn targedu AA2 ac AA3; mae'r pwysoli uchaf yn mynd i fod am AA2 oherwydd bod angen cymhwyso elfen gwybodaeth a dealltwriaeth yr asesiad di-arholiad.

Bydd yr asesiad di-arholiad ar ffurf ymchwiliad bwyd. Bydd CBAC yn rhyddhau dwy dasg ar gyfer pob cyfres; gall dysgwyr ddewis pa dasg maen nhw am ymgymryd a hi. Y canolfannau fydd yn marcio'r asesiad di-arholiad a CBAC yn ei gymedroli. Mae'n debygol y bydd lefel isel o reolaeth yn ystod y cam ymchwilio a lefel uchel o reolaeth yn ystod y cam asesu ffurfio. Ni phenderfynwyd eto ar yr amser a fydd ar gael ar gyfer yr asesiad ond mae'n debygol o fod yn 10 awr, yn cynnwys amser ar gyfer gwneud ymchwil ac ymchwilio. Ni fydd opsiynau yn yr uned hon, fodd bynnag bydd dysgwyr yn gallu dewis o ddwy dasg. **Rhaid** cyflwyno'r asesiad di-arholiad yn ddigidol.

## Uned 3 – Bwyd a Maeth ar Waith

Pwrpas yr uned hon yw:

- Cynllunio, paratoi, coginio a chyflwyno bwyd, gan ddefnyddio sgiliau a thechnegau priodol

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniadau a chynnwys posibl canlynol:



\ cBydd yr uned hon ar ffurf asesiad di-arholiad. Bydd y tasgau'n cael eu rhyddhau ym mis Medi yn ail flwyddyn yr astudio i'w cyflwyno yn ystod y gyfres haf; bydd tasgau ar gael am y tro cyntaf ym mis Medi 2026 i'w cyflwyno yn haf 2027. Bydd yr uned hon yn targedu AA3 ac AA4; bydd y pwysoli uchaf am AA4 oherwydd elfen ymarferol yr asesiad di-arholiad.

Gweithgaredd paratoi bwyd fydd yr asesiad di-arholiad. Bydd CBAC yn rhyddhau dwy dasg ar gyfer pob cyfres; gall dysgwyr ddewis pa dasg maen nhw am ymgymryd â hi. Mae'n debygol y bydd y lefel o reolaeth yn isel oherwydd bod natur y dasg yn seiliedig ar sgiliau. Y canolfannau fydd yn marcio'r asesiad di-arholiad a CBAC yn ei gymedroli. Mae'n debygol y caniateir 15 awr ar gyfer yr asesiad, yn cynnwys amser cynllunio a pharatoi. **Rhaid** cyflwyno'r asesiad di-arholiad yn ddigidol.



## Ystyriaeth o hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd (MERV)

Wrth ddatblygu'r amlinelliad hwn o'r cymhwyster arfaethedig, rydym wedi ystyried hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd, a hefyd sut i gydbwysu'r ystyriaethau hyn yng nghyd-destun gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo.

Yn ôl y Meini Prawf Cymeradwyo mae angen asesu 40% o'r cymhwyster drwy arholiad digidol yn unig. Er mwyn sicrhau ei fod yn hydrin, rydym mewn cysylltiad â Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru o ran gallu'r canolfannau i ddarparu'r asesiad ar sgrin.

Yn ôl y Meini Prawf Cymeradwyo mae angen asesu 60% o'r cymhwyster drwy asesiad di-arholiad. Mae angen i CBAC osod y ddau asesiad di-arholiad, gyda'r ganolfan yn eu marcio'n fewnol a'r corff dyfarnu'n eu cymedroli'n allanol. Cymhwyster llinol yw hwn, felly mae'n rhaid cyflwyno'r holl asesiadau di-arholiad yn y gyfres haf yn y flwyddyn olaf. Mae hyn yn golygu rhai heriau o ran hydrinedd. Er mwyn lleihau'r heriau hydrinedd hyn i'r eithaf, bwriadwn ryddhau tasgau ar gyfer yr unedau asesu di-arholiad ym mis Medi 2027, gan ganiatáu'r hyblygrwydd i'r canolfannau ddewis ym mha drefn maen nhw'n cynnal yr asesiadau di-arholiad. Gall yr asesiadau eu hunain wedyn ddigwydd ar adeg sy'n gyfleus iddyn nhw, yn ystod blwyddyn academiaidd ola'r astudio; oherwydd natur y tasgau, ni theimlwn ei bod yn briodol rhyddhau'r tasgau ar ddechrau'r flwyddyn gyntaf o astudio, gan y gallai hyn arwain at gulhau'r addysgu a dysgu.

Bydd un asesiad di-arholiad (Uned 2) yn cynnwys tasg sy'n gofyn i ddysgwyr gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r nodweddion gweithio, swyddogaeth a phriodoleddau cemegol cynhwysion mewn rysâit. Rydym yn rhagweld y gallai hyn achosi rhai problemau hydrinedd i'r canolfannau (a/neu ddysgwyr) o ran darpariaeth amrywiol cyfarpar a chynhwysion. Bydd hyn yn un o'r prif ystyriaethau a fydd gennym wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn wrth i ni anelu at leihau effaith hyn a sicrhau tegwch i ganolfannau (a dysgwyr). Byddem yn rhagweld y byddai lefel isel o reolaeth ar gyfer yr asesiad di-arholiad hwn, yn ystod y cam ymchwilio, fel bod modd i ddysgwyr gael profiad ymholi dilys yn rhan o'r asesiad, a ddylai wneud y cyfan yn fwy hydrin. Ystyriwyd yr effaith hydrinedd o 10 awr ar gyfer yr asesiad di-arholiad hwn; oherwydd bod natur yr asesiad hwn yn ymarferol, arbrofol ac ymchwiliol, ac yn hanfodol i'r pwnc, credwn fod y cyfnod amser yn angenrheidiol ac yn briodol i'r canolfannau a'r dysgwyr ar lefel TGAU. Byddwn yn cynghori canolfannau i dreulio sawl sesiwn yn cwblhau hyn er mwyn helpu o ran hydrinedd.

Yn yr asesiad di-arholiad arall (Uned 3) mae gofyn i ddysgwyr gynllunio, paratoi, coginio a chyflwyno bwyd gan ddefnyddio sgiliau a thechnegau priodol. Gallai hyn achosi rhai materion o ran hydrinedd oherwydd cost cynyddol y cynhwysion yn y sefyllfa ariannol bresennol; bydd hyn yn un o'r prif ystyriaethau a fydd gennym wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn wrth i ni anelu at leihau effaith hyn a sicrhau tegwch i ddysgwyr. Byddem yn rhagweld y byddai lefel isel o reolaeth am yr asesiad di-arholiad hwn oherwydd natur ymarferol y dasg, a dylai hynny ei gwneud yn fwy hydrin. Ystyriwyd yr effaith hydrinedd o 15 awr ar gyfer yr asesiad di-arholiad hwn; oherwydd bod natur yr asesiad hwn yn ymarferol a'r amser cynllunio, paratoi a choginio a ddaw yn sgil coginio sawl saig yn hanfodol i'r pwnc, credwn fod angen yr amser hwn a'i fod yn briodol i ganolfannau a dysgwyr ar lefel TGAU. Byddwn yn cynghori canolfannau i dreulio sawl sesiwn yn cwblhau hyn er mwyn helpu o ran hydrinedd.

Credwn y dylai'r cymhwyster arfaethedig gynnig cyfleoedd i ganolfannau ddatblygu rhaglen astudio ddeniadol ar gyfer eu dysgwyr, yn unol â disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru. Bydd Uned 1 yn cyflwyno Bwyd a Maeth yn eang, gan ganiatáu i ddysgwyr astudio amrywiaeth o feysydd mewn perthynas â Bwyd a Maeth. Bydd Uned 2 a 3 yn ymgysylltu dysgwyr drwy ddefnyddio cyd-destunau amrywiol, perthnasol ac ystyrlon yn rhan o'r asesiad. Bydd hyblygrwydd yn y ddau asesiad di-arholiad i ddysgwyr ddewis o ddwy dasg o ran yr hyn sydd orau ganddyn nhw.

Credwn fod yr asesiadau di-arholiad arfaethedig ar gyfer Unedau 2 a 3 yn ffordd ddilys o asesu'r pwrpas a'r cynnwys gan eu bod yn caniatáu i ddysgwyr ddangos eu sgiliau mewn cyd-destunau priodol. Er mwyn sicrhau dilysrwydd yr asesiadau di-arholiad, byddwn yn sicrhau bod pob uned yn targedu'r un pwysoliadau o ran amcanion asesu ym mhob cyfres. Datblygir meini prawf marcio ar gyfer y ddwy uned asesu di-arholiad. Bydd athrawon yn derbyn pecyn o gefnogaeth a fydd yn sicrhau bod y meini prawf marcio'n cael eu cymhwyso'n gyson ar draws y ganolfannau a dros amser. O ran Uned 2, bydd arweiniad ar gael o ran y nodiadau y gall dysgwyr eu defnyddio wrth ymateb i dasgau'r asesiad. Mae'n debygol y bydd lefel uchel o reolaeth yn cael ei defnyddio yn ystod y cam asesu ffurfiol er mwyn sicrhau dibynadwyedd. Byddwn yn cymedroli sampl o waith y ganolfan fel ffordd ychwanegol o sicrhau dibynadwyedd. Gan y gall dysgwyr wneud eu dewis o ddewis o ddwy dasg ar gyfer yr asesiadau di-arholiad Uned 2 ac Uned 3, byddwn yn sicrhau bod y tasgau'n cael eu safoni er mwyn asesu'r un sgiliau â meini prawf marcio cyffredin a dull safonol.

Credwn fod modd asesu pwrpas a chynnwys Uned 1 yn ddilys drwy arholiad, a gall cymysgedd o fathau o gwestiynau ein helpu i'w gwneud mor ddilys â phosibl. Pan fyddwn yn datblygu asesiadau, byddwn yn sicrhau bod yr holl dasgau'n targedu'r lluniad perthnasol, eu bod yn gytbwys o ran y cynnwys yr ymdrinnir ag ef dros amser a bod yr eitemau asesu a'r canlyniadau dysgu'n cyfateb. Lle bynnag y bo'n briodol gwneud hynny byddwn yn defnyddio data sydd ar gael i ni o ran sut y gweithredodd yr asesiad. Er mwyn sicrhau dibynadwyedd, byddwn yn gwneud yn siŵr bod yr unedau arholiad yn targedu'r un pwysoliadau o ran amcanion asesu a bod lefel y galw'n gyson ym mhob cyfres. Datblygir meini prawf marcio a bydd aseswyr yn cael eu hyfforddi o ran sut i'w cymhwyso'n gyson.

Byddwn yn parhau i ystyried y cydbwysedd o ran hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd ym mhob cam o ddatblygu'r cymhwyster.



## Atodiad 1

### Gwybodaeth allweddol o'r Meini Prawf Cymeradwyo

Daeth y wybodaeth sy'n dilyn yn syth o [Feini Prawf Cymeradwyo - TGAU Bwyd a Maeth](#) Cymwysterau Cymru - ac mae'n rhaid i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

#### Pwrpas

##### 1. Rhaid i **TGAU Bwyd a Maeth**:

- 1.1 gael ei dylunio'n bennaf ar gyfer Dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed
- 1.2 adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol y mae Dysgwyr wedi'i datblygu trwy eu haddysg rhwng 3 ac 14 oed
- 1.3 cefnogi addysgu a dysgu drwy ddarparu cynnwys ac asesiadau sy'n briodol o eang, heriol, perthnasol a diddorol sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru ac yn ei gefnogi, gan gynnwys ei bedwar diben
- 1.4 galluogi Dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith
- 1.5 darparu gwybodaeth ystyrlon, deg a chywir am gyflawniad Dysgwyr mewn pwnc sy'n amlygu'r hyn y mae Dysgwyr yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud

#### Nodau

##### 2. Rhaid i **TGAU Bwyd a Maeth**:

- 2.1. ganiatáu i Ddysgwyr archwilio amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â bwyd a maeth
- 2.2. darparu cyfleoedd i Ddysgwyr gael eu hasesu mewn amrywiaeth o gyd-destunau perthnasol ac ystyrlon

##### 3. Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Bwyd a Maeth** gefnogi Dysgwyr i:

- 3.1 ddeall taith bwyd – o'r 'fferm i'r fforc'
- 3.2 gwneud dewisiadau bwyd iach a gwybodus iddyn nhw eu hunain ac i eraill
- 3.3 esbonio swyddogaeth, manteision maethol a rhinweddau synhwyraidd cynhwysion o fewn rysâit
- 3.4 esbonio swyddogaeth a manteision maethol bwyd a diodydd yn y corff dynol
- 3.5 disgrifio'r cysylltiadau rhwng deiet, maeth, iechyd a llesiant
- 3.6 archwilio'r dylanwadau economaidd, amgylcheddol, moesegol a diwylliannol-gymdeithasol ar argaeledd bwyd, prosesau cynhyrchu, deiet a dewisiadau iechyd

- 3.7 paratoi, prosesu, storio, coginio a gweini bwyd sy'n cynnwys amrywiaeth o nwyddau bwyd yn effeithiol ac yn ddiogel
- 3.8 archwilio amrywiaeth o gynhwysion a dulliau a thechnegau coginio, o gogyddiaeth leol, genedlaethol a rhyngwladol
- 3.9 addasu ryseitiai presennol a datblygu eu syniadau eu hunain ar gyfer prydau bwyd
- 3.10 archwilio thema drawsbynciol hawliau dynol ac amrywiaeth y cwricwlwm, gan gynnwys cyfraniadau a chogyddiaeth cymunedau ac unigolion Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol
- 3.11 gwerthfawrogi sut mae bwyd yn ein cysylltu â'r byd o'n cwmpas
- 3.12 dadansoddi a gwerthuso amrywiaeth o fwyd a phrydau a wneir ganddynt eu hunain a chan eraill

## Amcanion Asesu

Rhaid i'r asesiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen yn y cymhwyster dargedu'r amcanion asesu canlynol yn unol â'r pwysoli a nodir, o fewn goddefiant o +/- 5 pwynt canrannol

<b>AA1</b>	<b>Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:</b> - bwyd a maeth - paratoi, coginio a chyflwyno bwyd	15%
<b>AA2</b>	<b>Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:</b> - bwyd a maeth - paratoi, coginio a chyflwyno bwyd	30%
<b>AA3</b>	<b>Dadansoddi a gwerthuso gwahanol agweddau ar y canlynol:</b> - bwyd a maeth - paratoi, coginio a chyflwyno bwyd (gan gynnwys bwyd a seigiau a wneir ganddyn nhw eu hunain a gan eraill)	20%
<b>AA4</b>	<b>Cynllunio, paratoi, coginio a chyflwyno seigiau, gan ddefnyddio sgiliau a thechnegau priodol.</b>	35%

## Cynllun asesu

- 12. Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Bwyd a Maeth** fod yn llinol.
- 13. Rhaid i TGAU **Bwyd a Maeth** ddangos cyfran y marciau (wedi'u pwysoli a/neu'n grai) a ddyrennir i bob amcan asesu ac i bob Cydran.
- 14. Rhaid i fanyleb **TGAU Bwyd a Maeth** gynnwys y trefniadau asesu canlynol:
  - 14.1 arholiad digidol yn unig sy'n:
    - 14.1.1 asesu gwybodaeth a dealltwriaeth Dysgwyr o fwyd a maeth
    - 14.1.2 cyfrif am 40% o'r cymhwyster
    - 14.1.3 cael ei osod a'i farcio gan y corff dyfarnu
    - 14.1.4 cynnwys mathau o eitemau sy'n cael eu gwella gan y llwyfan profi digidol
  - 14.2 tasg **Bwyd a Maeth** ar Waith sy'n:

- 14.2.1 asesu sut y gall Dysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau yn effeithiol i gynllunio, paratoi, coginio a chyflwyno bwyd
  - 14.2.2 cyfrif am 40% o'r cymhwyster
  - 14.2.3 galluogi Dysgwyr i ddewis o amrywiaeth o friffiau a osodwyd gan y corff dyfarnu
  - 14.2.4 cael ei marcio gan y Ganolfan a'i Chymedroli gan y corff dyfarnu
- 14.3. rhaid i'r dasg **Bwyd a Maeth** ar Waith ei gwneud yn ofynnol i Ddysgwyr:
- 14.3.1 gwneud gwaith ymchwil ac ymchwilio i'r dasg a ddewiswyd
  - 14.3.2 cynllunio'r dasg
  - 14.3.3 paratoi, coginio a chyflwyno bwydlen o dair saig a chyfwydydd o fewn un sesiwn gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau a thechnegau paratoi bwyd a choginio
  - 14.3.4 gwerthuso dewis, paratoi, coginio a chyflwyno'r tair saig a chyfwydydd
- 14.4. Ymchwiliad Bwyd sy'n asesu sut y gall Dysgwyr gymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn effeithiol i:
- 14.4.1 ymchwilio a gwerthuso nodweddion swyddogaethol, swyddogaeth a phriodweddau cemegol cynhwysion drwy arbrofi ymarferol
  - 14.4.2 defnyddio canfyddiadau'r ymchwiliad i sicrhau canlyniad penodol wrth baratoi a choginio bwyd
  - 14.5 rhaid i'r Ymchwiliad Bwyd:
    - 14.5.1 gyfrif am 20% o'r cymhwyster
    - 14.5.2. gael ei osod gan y corff dyfarnu, ei farcio gan y Ganolfan, a'i Gymedroli gan y corff dyfarnu
    - 14.5.3 ei gwneud yn ofynnol i'r Dysgwyr astudio, ymchwilio, dadansoddi a gwerthuso'r dasg

15. Rhaid i TGAU **Bwyd a Maeth** ddefnyddio technoleg ddigidol er mwyn i Ddysgwyr gyflwyno tystiolaeth o waith yn yr asesiadau di-arholiad.

16. Rhaid i'r corff dyfarnu bennu ei reolau ynghylch ailsefyll ac ailgyflwyno ar gyfer TGAU **Bwyd a Maeth** yn unol â'r Amodau Cydnabod TGAU.